

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â gosod rhwystrau ceudod agored a chaeedig o fewn systemau ffasâd sgrin law. Mae hyn yn cynnwys gwirio gwybodaeth sy'n ymwneud â gosod, mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol, defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar, a pharatoi a gosod deunyddiau addas. Gellid cynnal y gweithgaredd yn ystod gwaith adeiladu neu yn ystod gwaith cynnal a chadw.

Mae'r safon hon ar gyfer pobl sy'n gweithio ym maes galwedigaethau atal tân a gellir ei defnyddio gan weithredwyr, goruchwylwyr a rheolwyr.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

Dehongli gwybodaeth

P1 dehongli'r wybodaeth sy'n ymwneud â'r gwaith a'r adnoddau i gadarnhau ei bod yn berthnasol ar gyfer y canlynol:

- lluniadau
- manylebau
- amserlenni
- asesiadau risg
- datganiadau dull
- cyfarwyddiadau gwaith
- briff sy'n benodol i'r dasg
- dogfennau/ardystiad perfformiad tân
- gwybodaeth gan y gweithgynhyrchwr
- cyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwr
- ardystiad 3ydd parti

Arferion gwaith diogel

P2 cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol a'r canllawiau swyddogol i gyflawni'r gwaith a chynnal arferion gwaith diogel ac iach sy'n ymwneud â'r canlynol:

- dulliau gwaith a mesurau rheoli diogelwch
- defnyddio offer rheoli iechyd a diogelwch yn ddiogel
- defnyddio offer mynediad yn ddiogel
- defnyddio, storio a thrin deunyddiau, offer a chyfarpar yn ddiogel
- risgiau penodol i iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl a lles
- risgiau penodol sy'n gysylltiedig â deunyddiau sy'n cynnwys asbestos
- sesiynau briffio dyddiol ar gyfer gwaith (DABS) neu sgysiau gwirio offer

Dewis adnoddau

P3 dewis a chofnodi nifer ac ansawdd angenrheidiol yr adnoddau canlynol ar gyfer y dulliau gwaith:

- deunyddiau, cydrannau a gosodiadau
- offer a chyfarpar

Lleihau'r risg o ddifrod

P4 cydymffurfio â gweithdrefnau'r sefydliad i leihau'r risg o ddifrod i'r gwaith a'r ardal

gyfagos drwy:

- ddiogelu'r gwaith a'r ardal gyfagos rhag difrod
- cadw'r ardal waith yn ddiogel, glir a thaclus
- gwaredu gwastraff yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol

Bodloni manyleb y contract

P5 cydymffurfio â manyleb y contract i osod rhwystrau ceudod caeedig a rhwystrau ceudod agored (OSCB) mewn systemau ffasâd sgrin law, yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, yn unol â'r fanyleb ofynnol trwy:

- ddangos sgiliau gwaith i:
 - fesur
 - marcio allan
 - torri
 - alinio
 - addasu
 - gosod yn lefel a syth
 - gosod
 - eu rhoi yn ei lle
 - eu gwneud yn ddiogel
 - gosod rhwystrau ceudod caeedig a rhwystrau ceudod agored (OSCB) mewn ffasâd sgrin law
- defnyddio a chynnal offer llaw a phŵer a chyfarpar ategol
- gwirio cofnodion profi / archwiliadau dyddiol perthnasol cyn eu defnyddio lle bo hynny'n briodol

Ymagwedd at y gwaith

P6 cwblhau'r gwaith yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad, y rhaglen waith a diwallu anghenion eraill a'r cleient, a chrefftau eraill

Pwysigrwydd amddiffyn rhag tân

P7 gwirio bod cynnyrch wedi'i gymeradwyo i'w ddefnyddio yn y lleoliad penodol hwnnw

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

P1 Dehongli gwybodaeth

K1 pam y datblygwyd gweithdrefnau'r sefydliad a sut y cânt eu rhoi ar waith

K2 Y mathau o wybodaeth, eu ffynhonnell a sut y cânt eu dehongli mewn perthynas â:

- lluniadau
- manylebau
- amserlenni
- asesiadau risg
- datganiadau dull
- cyfarwyddiadau gwaith
- dogfennau/ardystiad perfformiad tân
- gwybodaeth y gweithgynhyrchwr
- cyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwr
- ardystiad 3ydd parti
- codau ymarfer
- rheoliadau/canllawiau cyfredol sy'n ymwneud â gosod rhwystrau ceudod agored a chaeedig o fewn systemau ffasâd sgrin law

K3 pwysigrwydd adrodd a chywiro gwybodaeth amhriodol

K4 yr amrywiaeth o wasanaethau digidol, offer a systemau perthnasol, a sut y cânt eu defnyddio

P2 Arferion gwaith diogel

K5 gwybodaeth ar gyfer deddfwriaeth berthnasol, gyfredol a chanllawiau swyddogol a sut mae'n cael ei chymhwyso

K6 y gwahanol fathau o ddiffoddwyr tân ar y safle a sut a phryd y cânt eu defnyddio

K7 sut y dylid ymateb i argyfyngau yn unol â chymeradwyaeth y sefydliad a sgiliau personol mewn perthynas â:

- thanau, gollyngiadau, anafiadau,
- argyfyngau yn ymwneud â gweithgareddau galwedigaethol
- nodi ac adrodd am ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos

K8 gweithdrefnau diogelwch y sefydliad ar gyfer offer, cyfarpar ac eiddo personol mewn perthynas â:

- gweithredwyr
- safle

- gweithle
- cerbydau
- cwmni
- cwsmer
- y cyhoedd

K9 sut i roi gwybod am risgiau a pheryglon a nodwyd drwy'r canlynol:

- dulliau gwaith
- asesiad risg
- gwybodaeth dechnegol y gweithgynhyrchwr
- sgysiau tasg ac offer
- rheoliadau statudol
- canllawiau swyddogol
- Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH)
- nodi deunyddiau sy'n cynnwys asbestos
- diogelwch trydanol (system waith ddiogel)

K10 diben a phwysigrwydd asesu risg

K11 y gweithdrefnau adrodd ynghylch damweiniau a phwy sy'n gyfrifol am baratoi'r adroddiad

K12 pam, pryd a sut y dylai'r offer rheoli iechyd a diogelwch

a nodwyd drwy egwyddorion atal gael eu defnyddio mewn perthynas â:

- mesurau diogelu cyfunol
- cyfarpar diogelu personol (PPE)
- cyfarpar diogelu resbiradol (RPE)
- awyru a gwacáu lleol (LEV)

K13 sut i gydymffurfio ag arferion gwaith amgylcheddol gyfrifol i fodloni deddfwriaeth gyfredol a chanllawiau swyddogol

K14 gweithdrefnau'r sefydliad wrth ddelio â damweiniau posibl, peryglon iechyd a'r effaith amgylcheddol ar y safle, ac wrth weithio:

- islaw lefel y ddaear
- mewn mannau cyfyng
- ar uchder
- gydag offer a chyfarpar
- gyda deunyddiau a sylweddau
- wrth symud a storio deunyddiau trwy godi a chario a chodi mecanyddol
- adnabod arwyddion a symptomau iechyd meddwl

P3 Dewis adnoddau

K15 y deunyddiau y mae gwasanaethau'n cael eu gwneud ohonynt fel arfer a'u goblygiadau o ran eu defnyddio gydag offer atal tân

K16 y deunyddiau is-haen a ddefnyddir fel arfer a'u goblygiadau o ran y deunydd a ddewiswyd ac arferion gosod

K17 y nodweddion, ansawdd, defnyddiau, cyfyngiadau a'r diffygion sy'n gysylltiedig â'r adnoddau ar gyfer gosod rhwystrau ceudod o fewn systemau ffasâd sgrin law

K18 pam fod y nodweddion, ansawdd, cynaliadwyedd, y defnydd a'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r adnoddau yn bwysig a sut y dylid cywiro diffygion

K19 gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis adnoddau, pam y cawsant eu datblygu a sut y cânt eu defnyddio

K20 sut i gadarnhau bod yr adnoddau a'r deunyddiau yn cydymffurfio â'r fanyleb

K21 sut y dylid defnyddio'r adnoddau a sut mae unrhyw broblemau sy'n gysylltiedig â'r adnoddau yn cael eu hadrodd mewn perthynas â:

- deunyddiau, cydrannau ac offer
- ffitiadau a gosodiadau
- sicrhau eu bod yn gydnaws
- gwydnwch
- offer llaw, offer a chyfarpar pŵer cludadwy
- offer digidol

K22 sut i nodi'r peryglon sy'n gysylltiedig â'r adnoddau a'r dulliau gwaith a sut y cânt eu goresgyn

K23 dulliau o gyfrifo maint, hyd, arwynebedd a gwastraff sy'n gysylltiedig â'r dull a'r weithdrefn i osod rhwystrau ceudod o fewn systemau ffasâd sgrin law

P4 Lleihau'r risg o ddifrod

K24 sut i wneud y gwaith a'r ardal gyfagos yn ddiogel rhag difrod a phwrpas diogelu rhag gweithgareddau cyffredinol yn y gweithle, gwaith arall a thywydd garw

K25 sut i leihau'r difrod i ddeunydd adeiladau presennol

K26 pam a sut mae'n rhaid gwaredu gwastraff yn ddiogel yn unol â'r canlynol:

- gofynion y safle
- cyfrifoldebau amgylcheddol
- gweithdrefnau'r sefydliad
- gwybodaeth gan y gweithgynhyrchwr
- rheoliadau statudol
- canllawiau swyddogol

K27 pam ei bod yn bwysig cadw'r ardal waith yn ddiogel, glir a thaclus

P5 Bodloni manyleb y contract

K28 sut i fodloni manyleb y contract mewn perthynas â'r canlynol:

- sut i nodi a dilyn y gofynion o ran ansawdd y gwaith gosod
- sut i baratoi a gosod rhwystrau ceudod o fewn systemau ffasâd sgrin law
- pwysigrwydd awyru a llif aer
- sut i sicrhau bod yr is-haen yn gyfan
- sut i osod onglau, platiau a sianeli
- sut i osod cydrannau o amgylch allwthiadau, treiddiadau, agoriadau a chiliau
- sut i atgyweirio neu amnewid rhwystrau ceudod
- goblygiadau rhyngwynebaw generig rhwng mathau o systemau
- sut i wybod a phenderfynu pryd mae angen sgiliau a gwybodaeth arbenigol ac adrodd yn unol â hynny
- sut i gyfarwyddo ac arwain y gwaith o ddefnyddio a symud peiriannau ac offer
- gofynion o ran gwrthsefyll tân a symud y gwaith i'w osod
- goblygiadau gwaith gosod anghywir
- pam ei bod yn bwysig gwybod a phenderfynu pryd mae angen sgiliau a gwybodaeth arbenigol ac adrodd yn unol â hynny
- na ellir dewis, amnewid neu argymell deunydd adeiladu
- os caiff gwybodaeth am gynhyrchion adeiladu ei chyfleu rhaid trosglwyddo'r wybodaeth yn gywir a heb newid yr hyn a grëwyd gan yr awdurdod perthnasol
- pam ei bod yn bwysig nodi a dilyn y gofynion o ran ansawdd y gwaith i'w osod
- sut i weithio gyda, o gwmpas ac yn agos at beiriannau a pheiriannau
- sut i ddefnyddio a chynnal offer a chyfarpar
- sut i weithio ar uchder
- sut i ddefnyddio offer a systemau mynediad
- perthnasedd asesu pwysigrwydd sut i nodi gofynion penodol ar gyfer strwythurau o ddiddordeb arbennig, adeiladau traddodiadol, adeiladau anodd eu trin ac o arwyddocâd hanesyddol
- sut a pham y gwneir y gwaith o gynnal a gofalu am yr holl offer a chyfarpar llaw a phŵer ac offer ategol/cysylltiedig

K29 pwysigrwydd gwaith tîm a chyfathrebu

K30 pwysigrwydd ymwybyddiaeth iechyd meddwl a lles

K31 pwysigrwydd bod yn Deg, Cynhwysol a dangos Parch wrth ddelio ag eraill

K32 sut i gydlynu ac ystyried anghenion gwaith arall sy'n gysylltiedig â gosod

rhwystrau ceudod o fewn systemau ffasâd sgrin law

P6 Ymagwedd at y gwaith

K33 y rhaglen waith i'w gweithredu, gan gynnwys amcan o'r amser a neilltuir a pham y dylid cadw at ddyddiadau cau

K34 y mathau o siartiau cynnydd, amserlenni ac amcangyfrif o amseroedd a gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer adrodd am amgylchiadau a fydd yn effeithio ar y rhaglen waith

P7 Pwysigrwydd diogelu rhag tân

K35 Pwysigrwydd mesurau goddefol i ddiogelu rhag tân a sut mae'n cefnogi adrannu rhag tân

K36 sut mae diogelu rhag tân yn atal tân er mwyn diogelu strwythurau a phobl

K37 pwysigrwydd darganfod beth sydd wedi cael ei gymeradwyo, a'r hyn nad yw'n addas

COSVR831

Gosod rhwystrau ceudod agored a chaeedig o fewn systemau ffasâd sgrin law



Datblygwyd gan	CITB
Fersiwn rhif	1
Dyddiad cymeradwyo	05 Gorff 2024
Dyddiad Adolygu Dangosol	04 Gorff 2029
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	CITB
RCU gwreiddiol	COSVR831
Galwedigaethau perthnasol	Crefftau Adeiladu
Cyfes/Set	Systemau Ffasâd Sgrin Law (Adeiladu)
Geiriau Allweddol	Rhwystrau ceudod; sgrin law; ffasâd; agored; caeedig
